Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Meddygol Blaenafon
# Dyddiad y gweithgarwch: 05 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mehefin 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-490-7

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Meddygol Blaenafon fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae gan y practis saith meddyg teulu ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol i bobl Blaenafon a'r cyffiniau.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 05 Mai 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?

- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?

- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg COVID-19 wedi cael ei gynnal ar ddechrau'r pandemig i ddogfennu'r mesurau a roddwyd ar waith yn y practis er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel i gleifion barhau i ddefnyddio'r gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi system un ffordd ar waith ym mhob rhan o'r adeilad er mwyn gwella llif cleifion a chreu ardaloedd aros ychwanegol er mwyn sicrhau bod modd i'r cleifion gadw mwy o bellter. Cawsom wybod bod sticeri a phosteri i atgoffa'r cleifion am y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol wedi cael eu gosod ar y llawr a'r waliau. Dywedwyd wrthym hefyd fod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i helpu i ddiogelu'r staff rhag y risg o haint; mae sgriniau wedi cael eu gosod ar ddesg y dderbynfa, ac roedd hysbysiadau'n cael eu harddangos yn nodi faint o bobl sy'n cael bod mewn unrhyw ystafell ar yr un pryd.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis wedi dechrau cynnal cyfarfodydd staff dyddiol er mwyn gwella'r ffordd roedd yn cyfathrebu â'r staff adeg cyhoeddi'r cyfyngiadau symud gyntaf. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu defnyddio i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 ac i atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau o ran dilyn gweithdrefnau cadw pellter cymdeithasol ac atal a rheoli heintiau. Roedd cofnodion o bob cyfarfod yn cael eu hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi dechrau cynnal cyfarfodydd staff wythnosol yn lle rhai dyddiol ym mis Awst 2020.

Cawsom gopïau o'r archwiliadau misol safonol y mae'r practis wedi parhau i'w cynnal mewn perthynas â rheoli iechyd a diogelwch a diogelwch tân er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau'n ddiogel i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael cynnig dulliau amgen o gael gafael ar wasanaethau heblaw am apwyntiadau wyneb yn wyneb er mwyn helpu i leihau nifer y bobl sy'n dod drwy'r adeilad yn ystod y pandemig. Roedd y meddygon teulu yn cynnal ymgynghoriadau â chleifion dros y ffôn yn rheolaidd er mwyn asesu a oedd angen trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb, ac roedd ymgynghoriadau fideo yn cael cu cynnal hefyd. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i wneud ymholiadau anghlinigol drwy e-bost ac yn cael eu cyfeirio at Fy Iechyd Ar-lein er mwyn archebu presgripsiynau rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod polisïau newydd wedi cael eu llunio i amlinellu'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gweithio o bell, megis polisïau ar Ddelweddau Ffotograffig ac Ymgyngoriadau Fideo, a nodwyd gennym fod hyn yn enghraifft o arfer dda.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau parhaus i gleifion sy'n byw mewn cartref gofal preswyl lleol. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi parhau i fonitro anghenion y cleifion drwy gydol

y pandemig. Roedd ymweliadau â'r cartref gofal yn cael eu cynnal pan fyddai'r meddyg teulu o'r farn bod angen gwneud hynny, ac mewn cytundeb â'r cartref gofal, a byddai'r canllawiau perthnasol yn cael eu dilyn ar gyfer pob ymweliad, e.e. sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn cael ei wisgo a'i ddiosg yn briodol a bod canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisïau atal a rheoli heintiau
- Archwiliadau / asesiadau atal a rheoli heintiau diweddar
- Data ar hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer y staff.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o bolisi Atal a Rheoli Heintiau a oedd yn disgrifio'r trefniadau cyffredinol a oedd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau yn y practis. Roedd nifer o brotocolau atal a rheoli heintiau yn ategu'r polisi hwn, megis rheoli gwastraff clinigol a sut i ddefnyddio a gwaredu offer miniog yn ddiogel. Ers dechrau COVID-19, bu'n ofynnol i'r cleifion a'r staff wisgo masg bob amser, a chawsom wybod bod hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r practis.

Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau sydd ar waith i wneud yn siŵr bod cleifion yr amheuir bod afiechydon heintus arnynt, gan gynnwys COVID-19, yn cael eu cadw ar wahân i'r cleifion eraill. Roedd y staff yn cymryd tymheredd pob claf er mwyn ceisio nodi unrhyw gleifion yr amheuwyd bod ganddynt symptomau COVID-19. Roedd un ystafell driniaeth wedi'i chlustnodi'n ystafell ynysu lle y gallai cleifion yr amheuwyd bod COVID-19 ac afiechydon heintus eraill arnynt gael eu gweld gan glinigydd. Roedd yn ofynnol i gleifion â symptomau hysbys a oedd yn cael eu trin yn yr ystafell ynysu ffonio'r practis wrth gyrraedd y tu allan i'r adeilad i wneud yn siŵr ei bod yn ddiogel iddynt ddod i mewn. Roedd nyrs yn cwrdd â chleifion a oedd yn gwarchod neu y nodwyd eu bod yn agored i niwed wrth iddynt gyrraedd y practis, ac yn dod â nhw i mewn i'r adeilad gan ddefnyddio mynedfa ar wahân er mwyn helpu i sicrhau na fyddent yn dod i gysylltiad â chleifion eraill.

Dywedwyd wrthym fod tymheredd y staff hefyd yn cael ei gymryd ddwywaith y dydd er mwyn helpu i leihau'r risg o groes-heintio rhwng y staff a'r cleifion. Dywedodd rheolwr y practis

wrthym ei fod wedi cofrestru â'r bwrdd iechyd yn ddiweddar er mwyn cael cyflenwad o brofion llif unffordd cyflym i helpu i nodi unrhyw aelodau o'r staff a all fod yn heintus ond heb ddangos unrhyw symptomau.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar atal a rheoli heintiau, er mwyn ei helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod nyrs y practis wedi dangos sut i wisgo a diosg PPE yn ddiogel i bob aelod o'r staff yn unigol, a bod posteri yn codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau cywir yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau rheolaidd o gyflenwadau PPE yn cael eu cynnal, ac nad oedd unrhyw anawsterau wedi bod o ran cael gafael ar ddigon o PPE.

Rhoddwyd copi o bolisi Safonau ac Amserlen Glanhau inni a oedd yn nodi'r tasgau glanhau roedd angen eu gwneud a pha mor aml roedd yn ofynnol eu cwblhau er mwyn lleihau risgiau COVID-19 a sicrhau na chaiff yr haint ei ledaenu. Roedd hyn yn cynnwys glanhau'r ystafell ynysu yn drylwyr ar ôl pob claf a glanhau ardaloedd mwy prysur yn fwy trylwyr, gan gynnwys dolenni drysau, canllawiau, cadeiriau a chyfarpar swyddfa.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom ystyried y systemau sydd ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn y practis er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Gwelsom fod rhestr wirio atal a rheoli heintiau yn cael ei chwblhau'n flynyddol, ac iddi gael ei chwblhau ddiwethaf ym mis Ionawr 2021. Roedd rhestr wirio COVID-19 hefyd wedi cael ei llunio ers dechrau'r pandemig er mwyn edrych ar y mesurau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r asesiad risg COVID-19 a ddatblygwyd gan y practis. Gwelsom fod y rhestr wirio COVID-19 wedi cael ei chwblhau ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2020, ond dywedwyd wrthym nad oedd hon yn cael ei chynnal yn rheolaidd. Er bod y rhestrau gwirio yn gynhwysfawr, ni chawsom sicrwydd eu bod yn cael eu cynnal yn ddigon aml i nodi unrhyw broblemau mewn modd amserol. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis yn dilyn y gwiriad ansawdd, a ddywedodd fod gwiriadau atal a rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal, ond nad oeddent yn cael eu dogfennu. Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai rhestr wirio atal a rheoli heintiau fisol wedi'i dogfennu'n ffurfiol yn cael ei rhoi ar waith i'w chynnal ar yr un pryd â'r gweithgareddau archwilio misol eraill a oedd yn cael eu cynnal yn y practis.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisïau/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion cyfarfodydd tîm y staff.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod asesiadau risg COVID-19 wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn nodi'r aelodau hynny o'r staff a allai wynebu mwy o risg o ddal yr haint a/neu gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Gwnaethom nodi bod cyfres o fesurau rhagofalus wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r aelodau hynny o'r staff y nodwyd eu bod yn risg uchel. Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n effeithiol yn ystod y pandemig heb amharu braidd dim ar y gwasanaeth.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi parhau i gael eu darparu yn y practis hyd yn oed pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Roedd hyn yn cynnwys imiwneiddiadau rheolaidd ar gyfer babanod, profion cymhareb ryngwladol wedi'i normaleiddio (INR) a rhwymo clwyfau. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi parhau i allu galw ar weithwyr iechyd proffesiynol ehangach, megis gwasanaethau iechyd meddwl, heb unrhyw broblemau sylweddol, a bod y cleifion yn cael eu hatgyfeirio ac yn cael gwasanaethau yn brydlon. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn teimlo bod y bwrdd iechyd wedi ei gefnogi yn ystod y 12 mis diwethaf, a'i fod wedi cael ymatebion prydlon ac effeithiol i faterion megis canllawiau COVID-19 a newidiadau i wasanaethau gofal eilaidd.

Mae'r practis yng Nghanolfan Adnoddau Blaenafon, sydd hefyd yn gartref i wasanaethau gofal sylfaenol eraill megis ymwelwyr iechyd a thimau nyrsys ardal. Roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant eraill yn cael eu darparu yn y ganolfan hefyd fel rhan o Rwydwaith Lles Integredig Gwent[1]. Dywedwyd wrthym fod y mwyafrif o'r gwasanaethau roedd y rhwydwaith yn eu darparu wedi'u hatal yn ystod y pandemig, a bod hyn wedi cael effaith ar y practis; mae cleifion nad ydynt wedi gallu cael gafael ar y gwasanaethau eraill yn cysylltu â'r practis i wneud ymholiadau anghlinigol. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod trafodaethau wedi cael eu cynnal â'r gwasanaethau eraill yn ddiweddar i gytuno pryd y byddant yn dychwelyd, yn y gobaith y bydd hyn yn lleihau'r pwysau presennol ar y practis.

Mae'r practis yn un o chwe phractis yng nghlwstwr Gogledd Torfaen.  Gwnaethom siarad â rheolwr y practis am y trefniadau clwstwr[2] a'r cymorth a oedd ar gael yn ystod y pandemig. Rhoddwyd enghraifft gadarnhaol inni o'r clwstwr yn cydweithio'n dda; ar ddechrau'r pandemig, aeth y clwstwr ati i drefnu a sefydlu canolfan ym Mhont-y-pŵl i sicrhau bod modd i gynrychiolwyr o bob practis weld cleifion yr amheuwyd bod COVID-19 arnynt, heb i'r cleifion

[1] https://bipab.gig.cymru/gwasanaethau-gofal-iechyd/aros-yn-iach/rhwydweithiau-lles-integredig-yng-ngwent/

[2] Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

hynny gymysgu â chleifion eraill yn eu practis meddyg teulu arferol. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr amserlen arferol o gyfarfodydd rhwng y clwstwr wedi parhau, a bod unrhyw wybodaeth ddiweddaraf berthnasol yn cael ei rhannu â meddygon teulu partner ac aelodau o staff y practis gan reolwr y practis.

Fel rhan o'r dystiolaeth a gawsom, gwnaethom nodi bod un o'r meddygon teulu yn y practis wedi dechrau cynnal sesiynau llesiant wythnosol, a ystyriwyd yn fenter gadarnhaol i gefnogi llesiant y staff yn ystod COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd ac wedi pennu bod angen i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella'n systemig mewn rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.